

Rhif: WG41306



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cydgrynhai ac Adolygu Is-ddeddfwriaeth –
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir)
1995 – **Rhan 24 Datblygu gan Weithredwyr Cod Cyfathrebu
Electronig (Cymru)**

Rhagfyr 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

OGL©Hawlfraint y Goron ISBN digidol: 978-1-80082-510-9

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Ymatebion
3. Crynodeb o'r ymatebion

1. Cyflwyniad

- 1.1 Yn 2018, cynhaliodd Llywodraeth Cymru yr ymgynghoriad *Cydgrynhoi ac Adolygu Is-ddeddfwriaeth*, a oedd yn ceisio barn ar newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 31 Mai 2018 ac 28 Medi 2018.
- 1.2 Mewn perthynas â'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, gwnaethom ymgynghori ar newidiadau i Ran 24, Datblygu gan Weithredwyr Cod Cyfathrebu Electronig (Cymru). Mae a wnelo Rhan 24 â hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer datblygu gwasanaethau telathrebu. Nod y newidiadau arfaethedig oedd gwella signal telathrebu a chysylltedd digidol ledled Cymru a helpu i fynd i'r afael â gofynion gwasanaethau 5G a datblygiadau technolegol arloesol eraill yn y dyfodol.
- 1.3 Gofynnwyd wyth cwestiwn am Ran 24 (C34 i C41) a derbyniwyd ymatebion gan 41 o ymgynghoreion. Oherwydd prinder adnoddau, dim ond ymatebion i dri chwestiwn yn yr ymgynghoriad (C34, C35 a C41) yr oeddem yn gallu eu hystyried. Roedd a wnelo'r cwestiynau hyn â chynnydd arfaethedig yn uchder mastiau ar dir mewn ardaloedd a warchodir ac ardaloedd nas gwarchodir, cynnydd yn y lled a ganiateir ar gyfer mastiau newydd ar dir, a chynnydd o ran yr amser pan ellir defnyddio offer cyfathrebu electronig symudol mewn argyfwng heb orfod gwneud cais am ganiatâd cynllunio.
- 1.4 Cyhoeddwyd [Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad](#) a oedd yn cwmpasu cam cychwynnol y diwygiadau arfaethedig i Ran 24 ym mis Chwefror 2019. Daeth [Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref \(Datblygu Cyffredinol a Ganiateir\) \(Diwygio\) \(Cymru\) 2019](#), a oedd yn ymgorffori'r newidiadau ar gyfer C34, C35 a C41, i rym ar 1 Ebrill 2019.
- 1.5 Mae'r adroddiad ymgynghori newydd hwn yn mynd i'r afael â'r ymatebion i'r pum cwestiwn arall am delathrebu a gafwyd yn 2018, sef C36 i C40. Mae cwestiynau 36 i 40, a restrir yn Nhabl 1, yn ymwneud yn benodol â materion sy'n gysylltiedig ag antenau bach (y cynigiwyd y dylid eu huno â'r diffiniad presennol o antenau cell fach). Gellir gweld esboniad manwl o'r cwestiynau yn [nogfen ymgynghori 2018](#). Ar gyfer pob cwestiwn, cyflwynir dadansoddiad ystadegol o nifer yr ymatebwyr fesul categori, ac yna grynodeb o'r prif bwyntiau a fynegwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru.

Tabl 1 : Cwestiynau'r Ymgynghoriad

C36	A ydych yn cytuno â'r diffiniad o 'antena bach' a 'system cell fach'?
C37	A ydych yn cytuno â'r newidiadau a gynigir i antenau bach a systemau cell fach a ganiateir ar adeiladau ac adeileddau (ac eithrio tai annedd ac o fewn eu cwrtill) mewn ardaloedd nas gwarchodir, ac ardaloedd a warchodir?

C38	A ydych yn cytuno â'r newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer antena bach a systemau cell fach ar dai annedd, ac o fewn eu cwrtil, mewn ardaloedd nas gwarchodir, a thai annedd mewn ardaloedd a warchodir ac ardaloedd cadwraeth?
C39	A ydych yn cytuno bod y newidiadau hyn yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofynion rhwydwaith yn y dyfodol?
C40	A ydych yn cytuno â'r newidiadau i systemau antena eraill ac â'r cynnydd yn nifer y gweithredwyr codau cyfathrebu electronig sydd ar adeilad?

1.6 Mae Adran 2, Ymatebion, yn rhoi crynodeb ystadegol cyffredinol o'r ymgynghoriad.

1.7 Mae Adran 3, Crynodeb o'r Ymatebion a Dadansoddiad Llywodraeth Cymru, yn rhoi trosolwg ystadegol o'r ymatebion i bob cwestiwn ac yna grynodeb o'r prif bwyntiau a fynegwyd. Yna, cyflwynir dadansoddiad Llywodraeth Cymru o sylwadau ac ymatebion yr ymatebwyr.

1.8 Mae'r trosolwg ystadegol yn dangos yr ymatebwyr a oedd yn cytuno, yn anghytuno, neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno â'r hyn a gynigiwyd yn y cwestiynau. Lle nad oedd ymatebwyr wedi nodi ateb penodol, cafodd y rhain eu cofnodi fel 'heb nodi'.

2. Ymatebion

2.1 Mae Tabl 2 yn dangos nifer a chanran yr ymatebion i gwestiynau 36 i 40 am delathrebu, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o ymateb.

Tabl 2	Ymateb							
	Cytuno	%	Anghytuno	%	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	%	Heb nodi	%
C36	27	87	0	0	1	3	3	10
C37	22	73	3	10	2	7	3	10
C38	20	65	7	23	2	6	2	6
C39	18	75	3	13	3	13	0	0
C40	25	96	1	4	0	0	0	0

2.2 Yr hyn sydd fwyaf amlwg yn Nhabl 2 yw'r gefnogaeth gadarnhaol i bob un o'r 5 cwestiwn, yn enwedig cwestiynau 36 a 40 y gwnaeth 87% a 96% o'r ymatebwyr gytuno â nhw, yn y drefn honno. Gwnaeth dros 70% o'r ymatebwyr gytuno â C37 a C39. C38, sy'n ymwneud â nifer yr antenau bach ar dai annedd, gafodd y nifer mwyaf o sylwadau a oedd yn anghytuno â'r cynnig, ond roedd y mwyafrif (65%) o blaid y cynnig o hyd.

2.3 Fodd bynnag, aeth llawer o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cwestiynau ymlaen i ymhelaethu, gan nodi cafeatau i'w hatebion a oedd yn cynnwys ychwanegu gwybodaeth i gryfhau'r cynnig a meini prawf amodol i sicrhau ei fod yn dderbyniol.

2.4 Mae Tabl 3 yn dangos ymatebion i'r cwestiynau am delathrebu wedi'u dadansoddi yn ôl y math o ymatebydd; derbyniwyd 41 o ymatebion. Awdurdodau Lleol oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r ymatebwyr (37%), yna 'Eraill' a oedd yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, ac unigolion. Cyrff Proffesiynol a Grwpiau Buddiant oedd yn cyfrif am y categori nesaf o ran maint. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion manwl gan sefydliadau yn y sector gwasanaethau symudol a digidol.

Tabl 3 Dadansoddiad o'r Ymatebwyr		
Categori	Nifer	Canran o'r Cyfanswm
Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	15	37
Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	5	12
Busnes/Ymgynghorwyr Cynllunio	3	7
Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	8	20
Y Sector Gwirfoddol	1	2
Eraill	9	22
Cyfanswm	41	100

3. Crynodeb o'r Ymatebion a Dadansoddiad Llywodraeth Cymru

3.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn ac yn trafod y prif bwyntiau a wnaed gan yr ymatebwyr yn fanylach. Yna, bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r pwyntiau hyn.

C36	A ydych yn cytuno â'r diffiniad o 'antena bach' a 'system cell fach'?
------------	--

Crynodeb Ystadegol

		Cytuno	Anghytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Heb Nodi	Cyfanswm
A	Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	15	0	0	0	15
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	1	0	2
C	Busnes/Ymgynghorwyr Cynllunio	2	0	0	1	3
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	4	0	0	1	5
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill	5				5
Cyfanswm		27	0	1	2	30

3.2 Roedd cwestiwn 36 yn cynnig sicrhau bod y diffiniad o 'antena bach' yn fwy clir ac yn defnyddio geiriad tebyg i'r hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddisgrifio 'antena cell fach'. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y byddai antena bach yn cael ei ddiffinio nawr fel antena:

- Sy'n gweithredu ar sail pwynt i amlbwynt neu ar sail ardal
- Y gellir cyfeirio ato fel antena *femtocell*, *picocell*, *metrocell* neu *microcell*
- Nad oes ganddo, mewn unrhyw fesuriad dau ddimensiwn, arwyneb sy'n fwy na 5000 centimetr sgwâr
- Nad oes ganddo gyfaint sy'n fwy na 50,000 centimetr ciwbig

3.3 Cafwyd cefnogaeth gref i'r diwygiadau i'r diffiniad o antena bach ymhlith y rhai a ymatebodd i'r cwestiynau am delathrebu. Roedd 27 o'r 30 o ymatebwyr yn cytuno, gan gynnwys 15 o Awdurdodau Lleol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

3.4 Diben y cynnig hwn yw symleiddio'r system bresennol sydd ar hyn o bryd yn cynnwys diffiniadau gwahanol o antena bach ac antena cell fach. Mae'r ddau derm hyn yn peri dryswch. Nod y cynnig yw disodli'r diffiniad presennol o antena bach â'r diffiniad presennol o antena cell fach. Rhagwelir y bydd hyn yn gwneud y broses o gymhwyso'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn gliriach i awdurdodau cynllunio a datblygwyr. Bydd hyn yn cefnogi'r cynigion eraill a wneir yn yr ymgynghoriad sef caniatáu gosod mwy o antenau bach er mwyn helpu'r twf mewn gwasanaethau 4G a 5G newydd a thechnolegau cysylltiedig eraill sy'n

ymwneud â chysylltedd er mwyn diwallu anghenion unigolion, cymunedau a busnesau yn y dyfodol.

3.5 Ar ôl ystyriaeth bellach, teimlwyd nad oedd angen cadw y ddau ddiffiniad ar wahân gan eu bod yn ail-adrodd eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru felly yn ystyried bod y term “system cell fach”, yn disgrifio'r offer y mae'r diffiniad hwn ar ei gyfer yn well (sy'n lletach nag antena ac sy'n cynnwys offer ategol). Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn gyson gyda'r termau a ddefnyddiwyd yn y Gweinydiaethau Datganoledig eraill, yn enwedig yr Alban sydd ar hyn o bryd yn ymgynghori ar newid tebyg. Ni fydd hyn yn cael effaith ar eiriad y diffiniad, ond dylai ei wneud yn haws i'w ddeall gan y rhai sy'n defnyddio'r gorchymyn gweithdrefn ddatblygu cyffredinol.

C37 A ydych yn cytuno â'r newidiadau a gynigir i antenau bach a systemau cell fach a ganiateir ar adeiladau ac adeileddau (ac eithrio tai annedd ac o fewn eu cwrtil) mewn ardaloedd nas gwarchodir, ac ardaloedd a warchodir?

Crynodeb Ystadegol						
		Cytuno	Anghytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Heb nodi	Cyfanswm
A	Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	8	3	1	1	13
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	1	1	3
C	Busnes/Ymgynghorwyr Cynllunio	3	0	0	0	3
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	5	0	0	0	5
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill	5	0	0	0	5
Cyfanswm		22	3	2	2	29

Crynodeb o'r Ymatebion

3.6 Mae cwestiwn 37 yn cynnig na ddylai fod unrhyw gyfyngiadau mewn ardaloedd a warchodir ac ardaloedd nas gwarchodir ar nifer yr antenau bach (fel y'u disgrifir

yn y diffiniad newydd yn C36) ar adeiladau ac adeileddau (ar wahân i dai annedd ac o fewn eu cwrttil, ac mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth).

- 3.7 Er bod 76% o'r ymatebwyr yn cytuno â C37, gan gynnwys 8 allan o'r 11 o Awdurdodau Lleol, mynegwyd nifer o bryderon, ac ychwanegodd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno gafeatau i'w sylwadau.
- 3.8 Nododd Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili bryderon ynghylch effaith weledol, ac roedd Cyngor Sir y Fflint o'r farn bod caniatáu nifer anghyfyngedig o antenau bach ar adeiladau o dan 15m yn ormodol. Nid oedd Rhondda Cynon Taf yn cefnogi'r cynnig hwn ar safleoedd a warchodir.
- 3.9 Mae Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ynys Môn yn ystyried bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, gyda Chyngor Sir y Fflint yn awgrymu, ar ôl gosod un system, fod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw i leoli systemau pellach ac o ran eu hymddangosiad. Er bod Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn cefnogi'r cynnig, roedd yn ystyried bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw mewn ardaloedd a warchodir ac Ardaloedd Cadwraeth.
- 3.10 Yn groes i'r gefnogaeth i gadw'r gofyniad i sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw a fynegwyd uchod, ystyria Mobile UK na ddylai fod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer ardaloedd a warchodir (gan gynnwys yr holl dir a gwmpesir gan Erthygl 1(5)) ac y dylent fod yn ddatblygiad a ganiateir.
- 3.11 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cynnig yn amodol ar gyfyngiadau presennol ar leoliad antenau bach a systemau cell fach ar dir Erthygl 1(5). Gallai mwy o effaith weledol fod yn andwyol i'r diben o warchod a gwella harddwch naturiol mewn tirweddau dynodedig.
- 3.12 Nododd Cadw fod angen cydsyniad Adeilad Rhestredig a chydsyniad Heneb Gofrestredig ar gyfer unrhyw waith a gaiff ei gynnig, ac felly nad oes unrhyw hawliau datblygu a ganiateir yn gymwys i antenau. Nododd Cadw hefyd fod cyfyngiadau yn cael eu gosod ar antenau mewn ardaloedd cadwraeth, ac awgrymodd y dylai Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u lleoliadau hanfodol neu glustogfeydd gael eu cynnwys hefyd.
- 3.13 Pwysleisiodd Openreach fod angen antenau bach a systemau cell fach ychwanegol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cynyddol gwasanaethau 5G a newidiadau technolegol eraill.

Ymateb Llywodraeth Cymru

3.14 Er bod cefnogaeth eang o blaid y cynnig hwn, mynegwyd rhai pryderon hefyd, yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau gweledol posibl ac effeithiau posibl ar amwynderau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cydbwysedd i'w daro rhwng yr angen i ddarparu gwell signalau a chysylltedd telathrebu, a'r angen i sicrhau bod lleoliadau sensitif yn cael eu gwarchod.

3.15 Nod y cynnig i lacio nifer yr antenau bach (diffiniad newydd) ar adeiladau ac adeileddau (ar wahân i dai annedd a ystyrir o dan C38) mewn ardaloedd a warchodir

ac ardaloedd nas gwarchodir yw helpu i gyflwyno datblygiadau telathrebu a thechnolegau cysylltedd digidol newydd ledled Cymru er budd cynifer o unigolion, cymunedau a busnesau â phosibl. Mae'n hanfodol bod Cymru yn gystadleuol yn hyn o beth ac nad yw rhai ardaloedd yn cael eu rhoi o dan anfantais annheg na diangen o ran eu cysylltedd a'u gallu i gael mynediad i wasanaethau digidol newydd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd gwledig. Roedd rhai ymgynghoreion yn teimlo bod nifer anghyfyngedig o antenau ar adeiladau yn ormodol, ond mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio mynd ati i warchod ein hadeiladau a'n hardaloedd mwyaf gwerthfawr drwy gadw'r gofyniad i sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw mewn ardaloedd a warchodir fel bod modd ystyried materion lleoli a dylunio a sicrhau y bydd angen caniatâd cynllunio bob amser ar gyfer Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig.

3.16 Nododd yr ymgynghoriad fod Ardaloedd Cadwraeth yn faes ychwanegol penodol y mae angen rhoi ystyriaeth arbennig iddo fel is-set Ardaloedd a Warchodir oherwydd yr effaith bosibl y gallai nifer mawr o antenau ar adeilad ei chael ar gymeriad sensitif yr ardaloedd hyn, a chyfyngiadau penodol arfaethedig, sef dim mwy na 2 antena bach ar adeilad neu adeiledd (ar wahân i dŷ annedd) mewn Ardal Gadwraeth.

3.17 Yn ei ymateb, nododd Cadw nad oedd y cynigion yn ein hymgyngoriad yn mynd i'r afael â Safleoedd Treftadaeth y Byd ac y dylid ystyried eu gwarchod ochr yn ochr ag Ardaloedd Cadwraeth. O ystyried pwysigrwydd statws Safleoedd Treftadaeth y Byd yn genedlaethol ac yn fyd-eang, cytunir y dylid cydnabod hyn fel bod adeiladau neu adeileddau o fewn y cyfryw safleoedd yn cael eu gwarchod i'r un graddau ag Ardaloedd Cadwraeth mewn perthynas ag antenau bach. Mae gan Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig eu system caniatáu eu hunain ac ni fydd unrhyw gynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio arnynt.

3.18 Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylid gwneud mân addasiadau i'r cyfyngiadau sy'n gymwys i antenau ar wahân i antenau bach (diffiniad newydd) ond, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y cyfyngiadau presennol yn gymwys o hyd.

3.19 O ran cymeradwyaeth ymlaen llaw, mae angen cymeradwyaeth o'r fath ar gyfer datblygiad Dosbarth A (gan gynnwys antenau) mewn ardaloedd a warchodir ac antenau ar adeilad lle y byddai'r antenau 6m neu fwy yn uwch nag uchder yr adeiledd y tu allan i ardaloedd a warchodir. Hoffai Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Cynllunio Lleol barhau i asesu lleoliad a dyluniad antenau bach mewn ardaloedd a warchodir. Nid ydym yn bwriadu newid na llacio'r gofyniad hwn mewn perthynas â'r cynigion yn yr ymgynghoriad na'r broses o ddiwygio Rhan 24 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir. Er gwaethaf hyn, mae Rhan 24, A2(1) (Amodau) yn gofyn bod datblygiad Dosbarth A(a) fel antena a chyfarpar ategol a osodir ar adeilad neu a addasir neu a ddisodlir, yn cael ei leoli mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar ymddangosiad allanol yr adeilad.

C38	A ydych yn cytuno â'r newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer antena bach a systemau cell fach ar dai annedd, ac o fewn eu cwrtil, mewn ardaloedd nas gwarchodir; a thai annedd mewn ardaloedd a warchodir ac ardaloedd cadwraeth?
------------	--

		Cytuno	Anghytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Heb Nodi	Cyfanswm
A	Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	5	6	1	0	12
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	1	2	4
C	Busnes/Ymgynghorwyr Cynllunio	3	0	0	0	3
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	5	1	0	0	6
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill	6	0	0	0	6
		20	7	2	2	31

3.21 Mae cwestiwn 38 yn cynnig y dylid gwneud newidiadau i nifer yr antenau bach (fel y'u disgrifir yn y diffiniad a nodir yn C36) ar dai annedd ac o fewn eu cwrtil mewn ardaloedd a warchodir ac ardaloedd nas gwarchodir ac mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth. Ymhlith y cynigion roedd cynyddu nifer yr antenau o un antena bach (a dim antena cell fach) i bedwar mewn ardaloedd nas gwarchodir ac ardaloedd a warchodir (ac eithrio Ardaloedd Cadwraeth). Mewn Ardaloedd Cadwraeth, cynnydd o un antena bach (a dim antena cell fach) i ddau antena bach.

3.22 Roedd 65% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, ac roedd 23% yn anghytuno. O'r Awdurdodau Lleol a ymatebodd, roedd 42% yn cytuno a 50% yn anghytuno; nid oedd 8% (sy'n cyfateb i un awdurdod) yn cytuno nac yn anghytuno.

3.23 Roedd yr Awdurdodau Lleol a oedd yn anghytuno yn pryderu'n bennaf am y cynnydd yn nifer yr antenau ar dai annedd, yr effaith weledol bosibl a'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar amwynderau, yn enwedig mewn ardaloedd a warchodir. Defnyddiwyd termau fel "gormodol", "gorgrynhoi" ac "andwyol". Roedd y cynnydd yn annerbyniol ym marn Cyngor Sir y Fflint. Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fod angen rhagor o dystiolaeth ynghylch nifer yr antenau a'u heffeithiau.

- 3.24 Roedd Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol hefyd o'r farn bod y cynnydd yn ormodol ac y byddai'n cael effaith weledol andwyol ar rai lleoedd. Roedd yn teimlo bod sail gref dros gadw'r cyfyngiadau presennol.
- 3.25 Cyfeiriodd Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ynys Môn at y ffaith bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer asesu lleoliad ac ymddangosiad antenau mewn ardaloedd a warchodir.
- 3.26 Nododd AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy nad oedd unrhyw wahaniaeth wedi'i nodi rhwng Parciau Cenedlaethol, AHNEau a Safleoedd Treftadaeth y Byd (ardaloedd a warchodir) a phobman arall mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer antenau bach. Roedd o'r farn y dylai'r cynigion ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth gael eu cymhwyso hefyd at dir Erthygl 1(5) a Safleoedd Treftadaeth y Byd.
- 3.27 Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno â'r cynnig, roedd yn ystyried y dylai fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau presennol ar leoliad antenau bach a systemau cell fach ar dir Erthygl 1(5) oherwydd yr effaith weledol bosibl a fyddai'n andwyol i'r gwaith o warchod a gwella harddwch naturiol mewn tirweddau dynodedig.
- 3.28 Ailadroddodd Cadw ei ymateb i C37 am Adeiladau Rhestredig, Henebion Cofrestredig a sut y dylai Safleoedd Treftadaeth y Byd gael eu cynnwys mewn unrhyw gyfyngiadau a gymhwysir at ardaloedd a warchodir.
- 3.29 Roedd Mobile UK yn cytuno â'r newidiadau i antenau bach ar dai annedd. Fodd bynnag, roedd o'r farn bod yn rhaid dileu'r cyfyngiadau presennol sy'n berthnasol i antenau ar adeiladau sydd o fewn 20m o briffordd ac sy'n wynebu'r briffordd. Mae'n ystyried bod y ddadl ynghylch amwynderau gweledol yn anghyson gan nad oes unrhyw gyfyngiadau ar antenau a osodir ar doeon gwastad uwchlaw'r nenlinell, yr ystyria eu bod yn fwy amlwg yn weledol nag antenau a osodir ar wyneb wal. Mae antenau a osodir ar wyneb wal o fewn 20m o briffordd yn wrthgynhyrchiol lle y gall fod angen llawer o 'antenau bach' ar gyfer gwasanaethau 5G mewn ardaloedd trefol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

3.30 Diben C38 oedd sicrhau bod modd cyflwyno technolegau 4G, 5G a thechnolegau digidol cysylltiedig eraill yn eang ledled Cymru (fel y nodir yn Ymateb Llywodraeth Cymru i C37). Er bod cefnogaeth gref i C38 yn gyffredinol, roedd hanner yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a ymatebodd yn anghytuno ac yn mynegi pryderon bod y cynnig yn ormodol ac yn caniatáu gormod o antenau bach ar dŷ annedd. Byddai'r cynnydd, o un antena i bedwar, yn defnyddio'r diffiniad o antena cell fach hefyd a fyddai'n caniatáu gosod uned fwy o faint o bosibl.

3.31 Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gallai cynyddu nifer yr antenau bach ar dŷ annedd o un i bedwar (ac antena cell fach o ddim i bedwar) fod yn ormod mewn rhai amgylchiadau ac y gallai hyn effeithio ar amwynder gweledol tŷ annedd neu gymeriad ardal lle nad dyna oedd y bwriad. Am y rheswm hwn, cynigir y dylid ond cynyddu nifer yr antenau bach ar dŷ annedd mewn ardaloedd nas gwarchodir ac ardaloedd a warchodir (ar wahân i Ardaloedd Cadwraeth) i ddau. Mewn Ardaloedd

Cadwraeth, mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylid caniatáu hyd at ddau antena bach ar dŷ annedd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, caniateir un antena bach ar dŷ annedd mewn ardal a warchodir (ond ni chaniateir antenau cell fach); cynigir nawr y dylid cadw'r lwfans hwn mewn Ardaloedd Cadwraeth (ac felly ganiatáu un antena cell fach ychwanegol). Ym mhob achos lle y ceir antenau bach ar dai annedd, bydd y cyfyngiadau presennol ar leoliad yn gymwys o hyd gan gynnwys yr angen i gael cymeradwyaeth ymlaen llaw mewn ardaloedd a warchodir. Cynigir na ddylid caniatáu datblygiad ar Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig.

3.32 Fel yr eglurwyd yn Ymateb Llywodraeth Cymru i C37, nododd Cadw nad oedd y cynigion yn ein hymgynghoriad wedi mynd i'r afael â Safleoedd Treftadaeth y Byd ac y dylid ystyried eu gwarchod ochr yn ochr ag Ardaloedd Cadwraeth. O ystyried pwysigrwydd statws Safleoedd Treftadaeth y Byd yn genedlaethol ac yn fyd-eang, cytunir y dylid cydnabod hyn fel bod tai annedd o fewn y cyfryw safleoedd yn cael eu gwarchod i'r un graddau ag Ardaloedd Cadwraeth mewn perthynas ag antenau bach. Felly, ni ddylid gosod mwy nag un antena bach ar dŷ annedd. Mae gan Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig eu system caniatáu eu hunain ac ni fydd unrhyw gynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio arnynt.

3.33 Yn sgil y penderfyniad i ddefnyddio'r un diffiniad ar gyfer antena cell fach ac antena bach, nid ystyrir ei bod yn briodol cadw'r cyfyngiad ar leoli antenau bach o fewn 20 metr i briffordd (gan fod antenau cell fach wedi'u heithrio yn flaenorol). Felly, caiff y cyfyngiad hwn ei ddileu.

C39 A ydych yn cytuno bod y newidiadau hyn yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofynion rhwydwaith yn y dyfodol?

Crynodeb Ystadegol						
		Cytuno	Anghytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Heb Nodi	Cyfanswm
A	Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	7	0	0	0	7
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	0	0	1	0	1
C	Busnes/Ymgynghorwyr Cynllunio	2	1	0	0	3
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	3	2	0	0	5

E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	1	0	1
F	Eraill	5	0	1	0	6
		17	3	3	0	23

3.34 Roedd 74% o'r ymatebwyr yn cytuno â C39 ac roedd 13% yn anghytuno.

Roedd pob un o'r rhai a oedd yn anghytuno yn perthyn i'r categorïau Busnes ac Ymgynghorwyr Cynllunio a Chyrff Proffesiynol a Grwpiau Buddiant.

3.35 Roedd Mobile UK o'r farn nad yw'r newidiadau arfaethedig yn mynd yn ddigon pell i hwyluso newidiadau i rwydweithiau a gwasanaethau symudol yn y dyfodol. Yn benodol, ystyrir bod yr angen i sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw yn ffactor cyfyngol a fydd yn llesteirio cynnydd. Bydd y cyfyngiad 'wyneb neu lethr sy'n wynebu priffordd' a ddisgrifir yn C38 yn golygu y bydd angen gwneud nifer o geisiadau a fydd yn arafu'r broses o gyflwyno technoleg 5G.

3.36 Dylai gweithredwyr gwasanaethau symudol gael budd o'r un hawliau a roddir i weithredwyr gwasanaethau sefydlog, h.y. polion telegraff, o dan ddatblygiad a ganiateir ar gyfer defnyddio antenau cell fach a chabinetau cyfarpar gerllaw. Gall gweithredwyr gwasanaethau sefydlog osod polyn telegraff o dan hysbysiad; ymddengys y byddai gosod yr un adeiledd ond gydag antena (wedi'i guddliwio pe bai angen) yn briodol hefyd. Byddai hyn yn caniatáu gosod mwy o antenau mewn ardaloedd dynodedig a chymunedau gwledig lle nad oes llawer o adeiladau ac adeileddau uchel ar gael.

3.37 Cytunodd BT Openreach â C39 ond aeth ymlaen i ddweud bod angen datblygiad a ganiateir ar gyfer antenau bach, systemau cell fach ac unrhyw gyfarpar arall sy'n hwyluso'r broses o gyflwyno rhwydwaith telathrebu symudol yn effeithlon. Bydd newidiadau yn golygu y bydd modd ehangu signalau a chysylltedd mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd mwy poblog. Mae'r defnydd o ddata yn y DU yn cynyddu ac felly croesewir camau i hwyluso twf cysylltedd digidol yn y DU.

3.38 Roedd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn anghytuno ac yn ystyried ei bod hi'n synhwyrol tybio na fyddai C39 yn cyflwyno digon o newid i ddarparu ar gyfer gofynion rhwydweithiau yn y dyfodol. Roedd Cyngor Gwynedd o'r farn bod y newidiadau yn rhesymol ond nododd y byddai angen cyfyngiadau a rheolaethau pellach am y rhesymau a nodwyd eisoes.

Ymateb Llywodraeth Cymru

3.39 Roedd Mobile UK o'r farn nad yw'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr ymgynghoriad yn mynd yn ddigon pell i hwyluso newidiadau i rwydweithiau a gwasanaethau symudol yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cynigion yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys y rhai a roddwyd ar waith eisoes drwy C34, C35 a C41, yn darparu cyfres o newidiadau a fydd yn helpu i gyflwyno

technologau telathrebu newydd. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gydbwysu ei hamcanion i wella cysylltedd â gwasanaethau digidol a'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd adeiledig. Mae a wnelo hyn â chyflwyno darpariaeth ddigonol yn y system gynllunio er mwyn mynd i'r afael â gofynion y diwydiant ar gyfer y dyfodol rhagweladwy, ac ystyrir bod y newidiadau arfaethedig hyn yn cynnig yr hyblygrwydd sydd ei angen i wneud hynny.

C40 A ydych yn cytuno â'r newidiadau i systemau antena eraill ac â'r cynnydd yn nifer y gweithredwyr codau cyfathrebu electronig sydd ar adeilad?

Crynodeb Ystadegol						
		Cytuno	Anghytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Heb Nodi	Cyfanswm
A	Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	10	1	0	1	12
B	Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	0	2
C	Busnes/Ymgynghorwyr Cynllunio	3	0	0	0	3
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	5	0	0	0	5
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill	5	0	0	0	5
		25	1	0	1	27

3.40 Roedd cwestiwn 40 yn cynnig y dylid caniatáu un system antena ychwanegol (ar wahân i antena bach neu antena dysgl) ar adeilad neu adeiledd ac y byddai'r antena yn cael ei leoli o dan uchder o 15m uwchlaw'r ddaear. Bydd hyn yn golygu bod modd gosod un antena ychwanegol ar adeilad (o dri i bedwar). Roedd cwestiwn 40 hefyd yn cynnig, lle y caiff antena (ar wahân i antena dysgl neu antena bach) ei leoli naill ai islaw 15 metr neu uwchlaw 15 metr ar adeilad neu adeiledd, y dylid cynyddu nifer y gweithredwyr cod cyfathrebu electronig a ganiateir o dri i bedwar.

- 3.41 Mynegwyd cefnogaeth gref i C40 gyda 93% o'r ymatebwyr yn cytuno; dim ond 4% (un ymatebwr) oedd yn anghytuno. Roedd 10 allan o'r 12 o Awdurdodau Lleol yn cefnogi'r newidiadau.
- 3.42 Cytunodd Mobile UK y dylid caniatáu i fwy o weithredwyr gwasanaethau symudol fod yn bresennol ar adeilad. Fodd bynnag, mae'n cyfeirio at ddyfarniad 'Forsythia House' yn Lloegr ac ystyria y bydd angen diwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn darparu ar gyfer anghenion gweithredwyr gwasanaethau symudol a fydd yn cyflwyno technoleg 5G ledled Cymru. Mae Mobile UK o'r farn y bydd y dehongliad yn yr achos hwn yn creu ansicrwydd. Dylai deddfwriaeth sy'n ymwneud ag antenau ar ben toeon gael ei hysgrifennu a'i geirio'n briodol er mwyn osgoi dehongliad Forsythia a nodi'n glir bod antenau ar ben toeon a'u hategion/ffitiadau yn ddatblygiad a ganiateir heb gymeradwyaeth ymlaen llaw ac nad ydynt yn 'fastiau' y dehonglir eu bod yn debyg i fast ar y ddaear.
- 3.43 Roedd Cyngor Caerffili o'r farn mai effaith newid ar amwynderau gweledol, a chymeriad adeiladau, gan gynnwys tai annedd, ac Ardaloedd Cadwraeth oedd yn bwysig. Os bydd gwaith dadansoddi yn nodi effaith andwyol, yna dim ond wedyn y caiff nifer y gweithredwyr ei ystyried.
- 3.44 Roedd BT Openreach yn cytuno â'r cynnydd yn nifer y gweithredwyr cod cyfathrebu electronig sy'n bresennol ar adeilad, ac roedd o'r farn ei bod yn ymateb rhesymol a chymesur i'r angen cynyddol am gyfarpar ychwanegol sy'n debygol o gael ei weld wrth gyflwyno'r rhwydwaith telathrebu 5G.
- 3.45 Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno yn amodol ar bennu cyfyngiadau ar leoliad antenau ar dir Erthygl 1(5). Heb y cyfyngiadau hyn, eglurodd fod risg gynyddol o weld effeithiau gweledol niweidiol ac effeithiau niweidiol ar y dirwedd a fyddai'n mynd yn groes i'r broses o warchod a gwella harddwch naturiol tirweddau dynodedig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

3.46 Roedd cwestiwn 40 yn cynnig y dylid cynyddu nifer y gweithredwyr cod cyfathrebu electronig o dri i bedwar a chynyddu nifer yr antenau (ar wahân i antenau dysgl neu antenau bach) sydd wedi'u lleoli islaw 15 metr ar adeilad neu ar fast ar y cyfryw adeilad o dri i bedwar. Yn yr un modd, mae cynnydd yn nifer y gweithredwyr cod cyfathrebu electronig o dri i bedwar hefyd yn gymwys mewn perthynas â chyfarpar a leolir uwchlaw 15m ar adeilad neu ar fast ar y cyfryw adeilad.

3.47 Cynigir y diwygiadau hyn fel mân newidiadau a fydd yn sicrhau bod yr hawliau datblygu a ganiateir yn Rhan 24 yn fwy hyblyg.

3.48 Nid oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys asesiad o destun Rhan 24 a oedd yn ymwneud â Dyfarniad Forsythia House y soniodd Mobile UK amdano. Felly, nid yw'n rhan o unrhyw un o ganlyniadau'r broses hon. Fodd bynnag, efallai yr ystyrir y mater hwn eto yn y dyfodol pan fydd modd rhoi ystyriaeth fanwl i'r mater hwn a'r amrywiaeth o randdeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw ar y cynigion.

